

Cynllunio Pontio Ysgolion - Cymru

Gall plant ymgartrefu ym mywyd yr ysgol yn hawdd, tra bod eraill yn cymryd mwy o amser. Fel ymarferwyr mae'n bwysig cynllunio ar gyfer anghenion unigol pob plentyn. Mae PACEY Cymru wedi cynhyrchu'r daflen ffeithiau hon a fydd yn eich helpu i gefnogi'r plant, eu teuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl yr amser hwn ac mae'n cynnwys cynlluniwr i'ch helpu chi i ddatblygu partneriaethau agosach ag ysgolion cyn i'r plentyn drosglwyddo.

Ffyrdd o gefnogi plant sy'n dechrau yn yr ysgol

Annog rhieni / gofalwyr i gofrestru eu plant gyda'r ysgol mor gynnar â phosibl.

Annog rhieni / gofalwyr i fynychu'r cyfarfodydd rhieni, gweithdai ac unrhyw ddigwyddiadau eraill a drefnir gan yr ysgol.

Rhannu straeon a llyfrau cadarnhaol am gyfnodau pontio a newidiadau gyda phlant.

Annog gwydnwch a hunanhyder trwy weithgareddau a phrofiadau yn eich lleoliad.

Annog hunanofal ac annibyniaeth trwy weithgareddau a phrofiadau yn eich lleoliad.

Annog adborth agored a pharhaus rhwng rhieni/gofalwyr a gofalwyr am eu plentyn wrth iddynt baratoi ar gyfer symud i'r 'ysgol fawr'. Annog deialog a thrafod unrhyw faterion gyda'ch gilydd.

Rhannu [dogfen Cyfnodau Pontio PACEY Cymru](#) gyda'r rhieni / gofalwyr a gofyn iddynt drosglwyddo'r dogfennau gorffenedig i'r ysgol yn ystod eu hymweliad. Tawelu eu meddyliau y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i helpu eu plentyn i ymgartrefu. Cynghorwch yr ysgol bod y ddogfen Cyfnodau Pontio wedi'i rhannu gyda'r rhieni / gofalwyr er mwyn gofyn am gopi yn ystod yr ymweliad.

Fe welwch y gallai fod angen cefnogaeth ar y plentyn ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Er enghraifft, mae gwahanol dermau ysgol yn cyflwyno heriau ychwanegol o ran cyfnodau pontio. Rydym wedi rhestru rhai awgrymiadau da isod:

Cyn gwneud cais am le plentyn yn yr ysgol	
Lleoliad gofal plant	Ysgol / Athrawon
<ul style="list-style-type: none"> • Annog rhieni/gofalwyr i ymweld â gwefan yr Awdurdod Lleol i gael gwybodaeth sy'n ymwneud â derbyniad eu plentyn i'r ysgol. • Atgoffa rhieni/gofalwyr i wneud cais am leoedd ysgol unwaith eto cyn y dyddiad cau - gwiriwch â'ch Awdurdod Lleol am fanylion y dyddiadau cau. • Annog rhieni/gofalwyr i gofrestru eu plant gyda'r ysgol mor gynnar â phosibl. 	

<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig cefnogaeth i lenwi'r ffurflenni derbyn ysgol os oes angen. • Dilynwch yr ysgol ar gyfryngau cymdeithasol a rhannwch y wybodaeth gyda rhieni. Rhannwch ddolenni i wefan yr ysgolion. 	
---	--

Cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol

<ul style="list-style-type: none"> • Annog rhieni/gofalwyr i ymweld â'r ysgol gyda'r plentyn. • Gofyn am gopi o brosbectws yr ysgol. • Trefnu cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr i drafod cyfnodau pontio ysgol. • Adolygu polisïau i sicrhau bod caniatâd ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth (gweler Arweiniad PACEY). • Mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd heb eu datrys, gan gynnwys unrhyw gymorth ychwanegol sy'n ofynnol i'r plentyn. • Rhannu'r poster Camau at Ddysgu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn i rieni/gofalwyr barhau gyda'r gefnogaeth rydych chi'n ei darparu ac i baratoi'r plentyn ar gyfer ei gyfnod pontio i'r ysgol. • Cyflwyno llyfrau ac adnoddau a fydd yn cefnogi'r plentyn gyda'r cyfnod pontio i'r ysgol, er enghraifft gwisg ysgol yn y blwch gwisgo i fyny, llyfrau a straeon ar ddechrau'r ysgol neu wneud ffrindiau newydd. • Gwahodd staff yr ysgol draw i leoliad gofal plant i gwrdd â'r plant. • Rhannu gwybodaeth am ddosbarth meithrin/derbyn yr ysgol a staff gyda phlant a'u teuluoedd. • Rhannu Pecyn Gweithgaredd PACEY Amdanaf i gyda rhieni/gofalwyr a'r adnoddau y byddwch chi'n eu defnyddio i'w 	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu â'r lleoliadau gofal plant yn yr ardal. Rhannu unrhyw ddyddiadau perthnasol gyda'r lleoliad. • Annog rhieni/gofalwyr i ymweld â'r ysgol gyda'r plentyn. • Diweddarau manylion cyswllt y darparwyr gofal plant yn yr ardal leol i hwyluso cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth. • Cefnogi datblygu cydweithrediad ac ymgysylltiad â lleoliadau gofal plant yn eich ardal. • Os yn bosibl, trefnwch ddigwyddiad a gwahoddwch y lleoliad gofal plant neu ymwelwch â'r lleoliad gofal plant. • Gwahodd lleoliadau gofal plant lleol i fabolgampau yn ogystal â chyngherddau a sioeau diwedd tymor. • Paratoi pecyn o luniau a gwybodaeth o'r dosbarth meithrin/dosbarth derbyn a staff i'w rhannu gyda'r lleoliad gofal plant y tymor nesaf. • Casglu gwybodaeth i helpu i baratoi ar gyfer y dyddiau cyntaf yn yr ysgol - gall hyn gynnwys awgrymiadau da i'r plant yn ogystal â chefnogaeth i'r rhieni/gofalwyr/teulu. • Defnyddio'r ddogfen Amdanaf i a Chyfnodau Pontio a rennir gan rieni/gofalwyr a gynhyrchir gan y lleoliad gofal plant i gefnogi cyfnod pontio'r plentyn i'r ysgol a rhannu cynnwys ag unrhyw staff perthnasol yn yr ysgol.
---	--

<p>helpu i ymgartrefu yn eu hysgol newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhannu'r wybodaeth dyddiau cyntaf yn yr ysgol. • Trefnu amser a pharatoi'r ffurflen Cyfnod Pontio PACEY Cymru ar gyfer pob plentyn. • Rhoi copi o'r Ddogfen Cyfnodau Pontio wedi'i chwblhau i'w rhieni/plant ar gyfer eu plentyn/plant. • Annog rhieni/gofalwyr i fynd â'r Ddogfen Cyfnod Pontio i'w cyfarfod gyda'r ysgol. • Gwahodd tîm y llyfrgell i gyflwyno her ddarllen yr haf i rieni/gofalwyr a phlant - annog rhieni/ gofalwyr i ymuno. • Annog rhieni/gofalwyr i ddefnyddio llyfrau ac adnoddau a fydd yn helpu'r plentyn i drosglwyddo o'r lleoliad gofal plant i'r ysgol. • Annog rhieni/gofalwyr i brynu unrhyw wisg yn gynnar er mwyn i'r plentyn baratoi a dod i arfer â'r wisg, yn hytrach na'i gadael tan y funud olaf. • Cyfeirio unrhyw rieni/gofalwyr at wybodaeth ynghylch cymorth gyda chyllid tuag at brynu gwisg ysgol. • Dilyn yr ysgol ar gyfryngau cymdeithasol a rhannu unrhyw negeseuon perthnasol o ddiwyddiadau neu bynciau cymunedol a allai fod yn berthnasol i rieni. • Gofyn am fod ar restr bostio'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dilyn y lleoliad gofal plant ar gyfryngau cymdeithasol (os yw'n berthnasol).
--	--

Tymor 1^{af} o ddechrau'r ysgol

<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal trafodaethau rheolaidd gyda rhieni/gofalwyr ar gynnydd eu plentyn yn ystod cyfarfodydd dal i fyny neu sgysiau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gyfeirio at y Pecyn Gweithgaredd Amdanaf i a dogfen Cyfnodau Pontio a rennir gan rieni/gofalwyr a gynhrychir gan y lleoliad gofal plant i gefnogi cyfnod pontio'r plentyn i'r ysgol a rhannu
---	--

<ul style="list-style-type: none"> • Ailedrych ar adnoddau a gwybodaeth Cyfnodau Pontio PACEY fel diweddariad. • Annog rhieni/gofalwyr i siarad â'u plentyn am sut maen nhw'n teimlo nawr eu bod nhw wedi dechrau yn yr ysgol. • Rhannu'r adnoddau sydd ar HWB a gwefan Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r ysgol a'r llyfryn 'Sut mae fy mhleintyn yn datblygu yn y Cyfnod Sylfaen?'. 	<p>cynnwys ag unrhyw staff perthnasol yn yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi adborth cyffredinol i leoliadau gofal plant ar ddefnyddio cofnodion trosglwyddo. • Gwahodd lleoliadau gofal plant i gyfarfodydd trosglwyddo ar gyfer plant, teuluoedd a darparwyr gofal plant. • Parhau i ymgysylltu â lleoliadau gofal plant yn eich ardal chi. • Gwahodd lleoliadau gofal plant lleol i fabolgampau yn ogystal â chyngherddau a sioeau diwedd tymor.
<p>Tymhorau diweddarach</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn am gefnogaeth gan asiantaethau allanol ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol y gallai fod gan blentyn gan gysylltu â'r teulu a'r ysgol. • Siarad â'r plentyn am ei brofiadau parhaus a'i annog i rannu'r rhain gyda phlant eraill yn eich lleoliad. • Cynnal trafodaethau rheolaidd gyda rhieni/gofalwyr ar gynnydd eu plentyn yn ystod cyfarfodydd dal i fyny neu sgysiau. • Nodi clybiau neu sesiynau y gall plant eu mynychu i gynnal arferion ac annibyniaeth mewn partneriaeth â'r rhieni/gofalwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ymgysylltu â lleoliadau gofal plant yn eich ardal chi. • Gwahodd lleoliadau gofal plant lleol i fabolgampau yn ogystal â chyngherddau a sioeau diwedd tymor. • Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r lleoliadau am unrhyw newidiadau. • Cysylltu â rhieni ynghylch cofrestru yn y derbyn.